



STRATEGAETH CYFRANOGLIAD CYHOEDDUS



2023-2027



Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Cynnwys

Rhan A – Cyd-destun

1. Cyflwyniad
2. Beth yw'r Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus?
3. Pam mae Cyfranogiad yn bwysig?
4. Sut buom ni'n datblygu'r strategaeth?

Rhan B – Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus Ddrafft

5. Ein Hamcanion a'n Dull Gweithredu
6. Sut mae'r cyngor yn gweithredu
7. Sut gallwch chi ddylanwadu ar benderfyniadau?
8. Mekanweithiau i annog a chefnogi pobl leol i fod yn rhan o'n penderfyniadau
9. Cynllun Gweithredu Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus Cyngor CnPT – Adeiladu ar ein mecanweithiau presennol ar gyfer cyfranogiad cyhoeddus
10. Monitro a gwerthuso



Rhan A – Cyd-destun

1. Cyflwyniad

Mae democratiaeth yn rhywbeth i'w werthfawrogi a'i feithrin. Ar lefel llywodraeth leol mae hynny'n golygu ymrwymiad i wrando ar bob llais, i'r lleisiau hynny gael eu clywed, ac i weithio ar y cyd â'n cymunedau i archwilio a datrys materion sy'n destun pryder, hybu a chydabod cyflawniadau, ac wynebu heriau newydd gyda'n gilydd.

Mae ein cyngor wedi gwneud ymrwymiad cadarn i feithrin diwylliant o bartneriaeth gyda phobl a chymunedau lleol, gan eu hannog a'u cefnogi i gyfranogi yn ein penderfyniadau, a darparu gwybodaeth reolaidd iddyn nhw ynghylch sut mae eu cyfranogiad wedi dylanwadu ar benderfyniadau.

Mae gennym eisoes hanes cryf o weithio mewn partneriaeth, yn aml mewn amgylchiadau heriol, gan ddangos manteision cydweithio agos, a chanolbwyntio ar gyflawni gwelliannau hirdymor yn llesiant ein cymunedau.

Yn 2021 fe wnaethon ni gynnal ymgyrch i'n helpu i ddeall sut mae'r pandemig wedi

effeithio ar wahanol rannau o'n bwrdeistref sirol a beth sydd bwysicaf i bobl leol wrth i ni symud ein gwaith adfer ymlaen .

Bu bron 1,800 o bobl o bob cefndir ac oedran yn ymgysylltu â'r ymgyrch, mewn cyfuniad o arolygon ar-lein ac all-lein, ac ategwyd hynny â grwpiau ffocws yn ein pum cwm.

Trwy gasglu barn a safbwyntiau rhanddeiliaid yn gynnar iawn wrth gynllunio, roedd modd i ni lunio ein hamcanion llesiant a'r camau gweithredu cysylltiedig ar yr hyn sy'n bwysig yn lleol. Rydym yn bendant yn bwriadu parhau i ymgysylltu â phobl wrth i ni roi'r cynllun ar waith, ei adolygu a'i fireinio yn ystod y blynyddoedd sy'n dod.

Fodd bynnag, mae Cyfranogiad y Cyhoedd yn llawer ehangach na gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn unig. Mae llawer o ffyrdd i unigolion, grwpiau a sefydliadau gyfranogi wrth wneud penderfyniadau, er enghraifft ymgynghori ffurfiol, cyfarfodydd cyhoeddus, deisebau, sefyll i fod yn aelodau o'r cyngor a phaneli dinasyddion etc.

Ni all un mecanwaith unigol fod yn ddigonol i ddatblygu dull gweithredu mewn partneriaeth rhwng cymunedau a'r cyngor sy'n eu gwasanaethu.

Mae'r strategaeth hon yn nodi sut byddwn ni'n annog ac yn cefnogi pobl i gyfranogi yn y penderfyniadau rydym ni'n eu gwneud.

Rydym ni'n deall bod cyfranogiad yn weithgaredd gwirfoddol, ac na fydd pawb am fod yn rhan ohono, ond gobeithiwn y bydd y strategaeth hon yn rhoi gwybodaeth i chi am y prosesau y tu ôl i'n penderfyniadau, ble mae cael hyd i wybodaeth, sut gallwch chi chwarae rhan a manteision gwneud hynny, gan eich galluogi i leisio barn ar ein gwaith a'n dull o'i gyflawni.



Cyng. Steve Hunt
Arweinydd y Cyngor



Mrs K Jones
Prif Weithredwr

2. Beth yw'r Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus?

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("y Ddeddf") yn gofyn bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi strategaeth cyfranogiad cyhoeddus, yn ymgynghori arni, ac yn ei hadolygu'n rheolaidd, er mwyn annog pobl leol i gyfranogi yn eu penderfyniadau. Mae hynny'n cynnwys pan fydd cynghorau'n gwneud penderfyniadau mewn partneriaeth â chyngor arall, neu mewn cydweithrediad ag unigolyn neu gorff arall, megis bwrdd iechyd lleol.

Mae'r Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus hon yn cefnogi'r blaenoriaethau yn ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2022-2027 ac yn adlewyrchu ein gwerthoedd trwy nodi sut byddwn ni'n annog ac yn galluogi pobl leol a chymunedau yng Nghastell-nedd Port Talbot i chwarae rhan weithredol yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Strategaeth bedair blynedd yw hon, o 2023 i 2027, sy'n amlinellu amcanion y cyngor, ei ddull gweithredu, a'i fecanweithiau ar gyfer annog a galluogi cyfranogiad y cyhoedd, ynghyd â gwybodaeth am sut gall pobl leol ddylanwadu ar benderfyniadau. Rhoddir y rhain yng nghyd-destun chwe gofyniad a nodwyd yn y Canllawiau Statudol ar Strategaethau Cyfranogiad Cyhoeddus, i ddangos sut rydym ni'n gwneud y canlynol ar hyn o bryd, neu sut rydym ni'n bwriadu eu cyflawni:

1. hybu ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r cyngor ymhlith pobl leol;
2. hybu ymwybyddiaeth o sut mae dod yn aelod o'r cyngor, a beth mae'r aelodaeth honno'n ei olygu, ymhlith pobl leol;
3. hwyluso mynediad at wybodaeth am benderfyniadau'r cyngor i bobl leol;
4. hyrwyddo a hwyluso prosesau fel bod pobl leol yn gallu cyflwyno sylwadau i'r cyngor ynghylch penderfyniad cyn iddo gael ei wneud, ac wedi hynny;
5. darparu trefniadau ar gyfer dod â barn y cyhoedd at sylw pwyllgorau trosolwg a chraffu;
6. hybu ymwybyddiaeth cynghorwyr o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl.

Gwerthoedd:

Cysylltiedig

mae beth sy'n bwysig i chi yn bwysig i ni

Gofalgar

rydyn ni'n gofalu amdanoch chi, eich bywyd a dyfodol ein bwrdeistref sirol

Cydweithredol

rydyn ni'n gweithio gyda'n dinasyddion a'n partneriaid oherwydd bod modd i ni gyflawni mwy gyda'n gilydd

Hyderus

rydyn ni'n optimistaidd ac yn hyderus ynghylch y dyfodol



3. Pam mae Cyfranogiad yn bwysig?

Gwneir penderfyniadau gwybodus pan fyddwn ni'n ymgysylltu â phobl a chymunedau, yn hytrach na rhagdybio beth yw meddyliau, dymuniadau a theimladau pobl.

O ganlyniad, er bod dyletswydd gyfreithiol ar y cyngor i annog a hwyluso cyfranogiad, mae ein hymrwymiad yn mynd y tu hwnt i hynny, gan ein bod yn cydnabod bod cyfranogiad effeithiol gan y cyhoedd yn rhan allweddol o sicrhau gwell canlyniadau – i'r cyngor ac i'r bobl rydym ni'n eu gwasanaethu.

Manteision cyfranogiad i bobl a'n cymunedau:

- cyfle i ddylanwadu ar bolisi a gwasanaethau a'u ffurfio
- cyfrannu at well penderfyniadau oherwydd bod gan lunwyr penderfyniadau wybodaeth sy'n fwy cyflawn
- cael eich clywed a'ch gwerthfawrogi fel dinasyddion
- gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r broses o wneud penderfyniadau, penderfyniadau a chanlyniadau
- cefnogi pobl i ymwneud yn weithredol â llunio polisi a chynllunio gwasanaeth o gyfnod cynnar

Manteision cyfranogiad i'r cyngor:

- Dysgu gan bobl a chymunedau am eu hagweddau, eu hanghenion a beth sy'n bwysig iddyn nhw
- Cyflawni ein gwerthoedd 'cysylltiedig', 'gofalgar', 'cydweithredol' a 'hyderus'
- Gwasanaethau a pholisïau sy'n cael eu llywio gan angen a/neu alw gwirioneddol
- Gwahanol syniadau a safbwyntiau
- Penderfyniadau mwy cadarn sydd wedi ystyried anghenion a buddiannau rhanddeiliaid
- Rhanddeiliaid sydd â gwell ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r broses o wneud penderfyniadau, penderfyniadau a chanlyniadau
- Cyfle i feithrin ymddiriedaeth rhwng y cyngor a chymunedau lleol
- Arddangos ymrwymiad i gyfranogiad y cyhoedd, yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol

Mae cyflawni'r uchod yn dibynnu ar wneud cyfranogiad yn rhan annatod o'n gwaith ar draws y cyngor. Trwy weithio tuag at amcanion a rennir a gwreiddio dull gweithredu cyson, ein nod yw sicrhau bod ein gweithgareddau cyfranogiad cyhoeddus yn cyrraedd safon uchel yn gyson.

4. Sut gwnaethom ni ddatblygu'r strategaeth?

Gan ddilyn y Canllawiau Statudol ar Strategaethau Cyfranogiad Cyhoeddus, a luniwyd o dan adran 44 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, fe wnaethom ni gynnwys nifer o randdeiliaid wrth ddatblygu'r strategaeth ddrafft.

Gweithgor y Swyddogion

Gweithgor o swyddogion fu'n cyflawni'r gwaith rhychwantu cychwynnol, gan fapio llwybrau cyfranogiad oedd eisoes yn bodoli a draffio gwybodaeth allweddol ar gyfer y strategaeth. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Gwasanaethau Cyfreithiol, Polisi Corfforaethol, Cyfathrebu, Gwasanaethau Democrataidd, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Etholiadol.

Cymuned o Ymarfer CnPT ar Ymwneud ac Ymgysylltu

Buom ni'n gweithio gyda Chymuned o Ymarfer CnPT ar Ymwneud ac Ymgysylltu i ddatblygu ymhellach waelodlin yr hyn sydd eisoes ar waith, beth sy'n gweithio'n dda, a ble mae'r bylchau, gan nodi bylchau posibl a dyheadau o ran 'beth gallem ni ei wneud yn well'. Bu'r Gymuned o Ymarfer hefyd yn cyfrannu at amcan a dull gweithredu trosfwaol y strategaeth.

Sefydlwyd Cymuned o Ymarfer CnPT yn 2019, ac mae'r aelodaeth wedi tyfu i 60+ o swyddogion y cyngor a chynrychiolwyr o sefydliadau partner sy'n ymgysylltu'n rheolaidd â grwpiau penodol o randdeiliaid fel rhan o'u gwaith. Pwrpas y Gymuned o Ymarfer yw bod yn gyfrwng i'r aelodau weithio mewn modd clyfrach a mwy cydweithredol, er mwyn sicrhau bod pawb yn ein cymunedau yn cael cyfle i leisio barn ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Y bwriad yw darparu fforwm proffesiynol a pharchus i'r aelodau rannu profiadau a gwybodaeth am faterion ymwneud ac ymgysylltu mewn ysbryd o ddysgu gan ei gilydd a chefnogi cymheiriaid.

Panel Dinasyddion CnPT

Dosbarthwyd holiadur i Banel Dinasyddion CnPT. Lanswyd y panel ym mis Ionawr 2020, ac mae'n cynnwys mwy na 500 o drigolion o bob rhan o'r fwrdeistref sirol, gan eu cynnwys yn weithredol mewn penderfyniadau yn gynnar iawn, fel eu bod yn helpu i lunio cynigion cyn i'r rheiny fod yn destun ymgynghori cyhoeddus ehangach.

Nod yr holiadur oedd cael syniad o gyfranogiad y trigolion ym mhroses gwneud penderfyniadau'r cyngor ar hyn o bryd; pa feganweithiau cyfranogiad maen nhw'n ymwybodol ohonynt; lefel y diddordeb mewn cyfleoedd cyfranogiad; i ba raddau mae'r rhai sydd

wedi cyfranogi yn teimlo bod eu hymwneud wedi caniatáu iddynt gael effaith wirioneddol ar y penderfyniad(au) a wnaed; a gwranddo ar unrhyw awgrymiadau o ran beth gallai'r cyngor wneud mwy ohono er mwyn gwella ymwneud y cyhoedd â'n prosesau gwneud penderfyniadau.

Cafwyd 71 o ymatebion, ac mae themâu'r rhain wedi helpu i lywio Cynllun Gweithredu'r strategaeth hon. Roedd y themâu yn cynnwys:

- Dyw'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gwybod eu bod yn gallu bod yn rhan o wneud penderfyniadau (na'n bod ni am iddyn nhw wneud hynny), a dyw pawb o'r rhai sy'n gwybod eu bod yn gallu chwarae rhan ddim yn gwybod sut mae gwneud hynny
- Mae rhai yn teimlo bod ymgysylltiad y cyngor yn beth arwynebol, i roi tic yn y blwch, ac nad oes gennym ni ddiddordeb gwirioneddol mewn ymgysylltu (mae canfyddiad bod penderfyniadau wedi'u gwneud eisoes)
- Dydyn ni ddim yn 'cwblhau'r broses', felly dyw'r rhai sydd wedi cwblhau arolygon/ymgysylltu'n flaenorol ddim yn gweld canlyniadau'r ymgysylltiad hwnnw (mae cymysgedd yn hyn o beth, mae rhai i weld yn teimlo os na fyddwn ni'n gwneud beth maen nhw eisiau ein bod ni heb wrando, efallai oherwydd ein bod ni ddim yn esbonio pam rydym ni'n gwneud rhai penderfyniadau; mae eraill fel petaen nhw'n awyddus i weld adroddiadau arolygon, ond heb wybod ble mae cael hyd iddyn nhw)
- Mae nifer o sylwadau sy'n dangos nad yw ymatebwyr yn teimlo bod ein dull o wneud penderfyniadau'n dryloyw
- Dyw rhai pobl ddim yn gwybod pwy yw eu cynghorydd, na ble mae cael yr wybodaeth honno – mae'r un peth yn wir am gyfarfodydd y cyngor, dyw'r ymatebwyr ddim yn ymwybodol bod y papurau'n gyhoeddus a/neu bod y cyhoedd yn gallu mynd i'r cyfarfodydd
- Mae'r rhan fwyaf yn ymwybodol o'r wefan, ond mae ambell sylw yn sôn ein bod ni ddim yn gwneud digon i bobl sydd ddim ar-lein.

Rhan B – Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus Ddrafft

5. Ein Hamcanion a'n Dull Gweithredu

Ein nod yw bod yn agored, ac ymateb i anghenion pobl leol a chymunedau. Mae hynny'n cynnwys eu gwneud yn rhan o brosesau cyfranogol sy'n eu galluogi i ddylanwadu ar bolisi a gwasanaethau a helpu i'w ffurfio. Wedi dweud hynny, mae cyfyngiadau ar bob penderfyniad a wneir, felly mae'n bwysig rheoli disgwyliadau. Er mwyn helpu i gyflawni hynny, ein nod fydd **hysbysu** pobl ynghylch sut mae ein proses o wneud penderfyniadau'n gweithio, **ymgysylltu** â nhw fel eu bod yn cyfranogi, a rhoi **adborth** ar sut mae eu cyfranogiad yn dylanwadu ar ein penderfyniad(au).

Ein Hamcan Trosfwaol yw annog a chefnogi pobl i gyfranogi yn y penderfyniadau mae'r cyngor yn eu gwneud trwy gyflawni ein gweithgareddau mewn ffyrdd cynhwysol a hygyrch, gan adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau, bod yn ymatebol, a chyflawni gofynion y ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol (Deddf Cydraddoldeb 2010; Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014); Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015; Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021).

Ein Dull Gweithredu – yn unol ag ymrwymiad y cyngor i ddull gweithredu seiliedig ar hawliau wrth ymdrin â chyfranogiad, ymwneud ac ymgysylltu, byddwn yn dilyn yr egwyddorion canlynol:

- **Hygyrchedd** – byddwn ni'n addasu'r hyn rydym ni'n ei wneud ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, gan sicrhau bod ein gweithgareddau'n cael eu darparu yn y fformatau a'r iaith/ieithoedd mae ar bobl eu hangen. Ar ben hynny, byddwn ni'n gwneud yn fawr o'r cyfleoedd a ddaw yn sgîl technoleg ddigidol i alluogi ein cymunedau i gyfranogi mewn penderfyniadau, ond ar yr un pryd, rydym ni'n ymwybodol nad yw technoleg ddigidol ar gael i bawb, neu nad ydynt yn dewis y dull hwnnw, a byddwn yn darparu ar gyfer hynny.
- **Cynhwysedd a Pheidio â Chamwahaniaethu** – byddwn ni'n sensitif i'r nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 – oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol.
- **Grymuso** – byddwn ni'n ymdrechu i sicrhau bod modd i'n cymunedau fod yn rhan o'n proses o wneud penderfyniadau, yn eu galluogi i ddylanwadu ar newid ystyrion, ac yn dilyn hynny'n dangos iddyn nhw bod eu lleisiau wedi cael eu clywed.

Yn unol â'r Egwyddorion Ymgysylltu Cenedlaethol a gynhyrchwyd gan Cyfranogiad Cymru, bydd ein gweithgareddau cyfranogiad, ymwneud ac ymgysylltu hefyd yn rhai:

- **Cynaliadwy** – nid wedi'u seilio ar gyfarfodydd 'untru' yn unig
- **Ymarferol** – ddim yn rhy fiwrocraataidd
- **Gonest** – fel bod pobl yn gallu rhoi adborth ar eu profiadau a rhannu syniadau
- **Ymatebol** – fel bod pobl yn gwybod eu bod wedi cael eu gwrandio a'u cymryd o ddifri
- **Creadigol** – fel bod pobl yn gallu helpu i ddylunio gwelliannau i wasanaethau
- **Tryloyw ac wedi'u cyfathrebu'n dda** – er mwyn helpu i feithrin amgylchedd o ymddiriedaeth

Er mwyn sicrhau bod ein gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn deg ac yn gyfreithlon, fe'u llunnir i adlewyrchu pedair Egwyddor Gunning:

- Rhaid i'r ymgynghori ddigwydd ar adeg pan fo'r cynigion yn dal i gael eu ffurfio
- Rhaid cynnig rhesymau digonol ar gyfer unrhyw gynig, fel bod modd rhoi "ystyriaeth ddeallus" ac ymateb iddo
- Caniatáu amser digonol ar gyfer ystyriaeth ac ymateb
- Caiff cynnyrch yr ymgynghoriad ei gymryd i ystyriaeth yn gydwobodol gan y sawl/rhai sy'n gwneud y penderfyniad

6. Sut mae'r Cyngor yn Gweithredu

Mae'r cyngor yn cyflwyno ystod eang o wasanaethau i boblogaeth o 144,386. Mae'n cynnwys 60 o Gynghorwyr (neu Aelodau) sy'n cael eu hethol bob pum mlynedd. Mae'r Cynghorwyr yn ddemocrataidd atebol i drigolion eu wardiau etholiadol. Mae gan gynghorwyr ddyletswydd gor-redol i'r gymuned gyfan, ond mae ganddynt ddyletswydd arbennig i'w hetholwyr, gan gynnwys y rhai oedd heb bleidleisio drostyn nhw.

Mae Cynghorwyr yn dilyn côd ymddygiad i sicrhau safonau uchel yn eu dull o gyflawni eu dyletswyddau. Dyma eu rolau allweddol:

- **Gwneud penderfyniadau yn y Cabinet:** mae cynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd llawn o'r cyngor, a gall fod gan rai rolau penodol mewn perthynas â llunio polisi, cyflwyno gwasanaethau a defnyddio adnoddau
- **Craffu ar benderfyniadau:** gall cynghorwyr wasanaethu ar baneli craffu, neu bwyllgorau sy'n craffu ar bolisiau presennol a chyflwyno gwasanaethau
- **Swyddogaethau rheoliadol:** mae gan rai o bwyllgorau'r cyngor, fel y rhai sy'n delio â cheisiadau cynllunio a thrwyddedu, rôl led-farnwrol
- **Cynrychioli eu ward:** cynrychioli a chwrdd â thrigolion a grwpiau diddordeb yn eu ward a delio â materion maen nhw'n eu codi. Ar ben hynny, gall cynghorwyr fynychu cyfarfodydd y cyngor cymuned a gwasanaethu ar fforymau lle gall materion lleol gael eu trafod rhwng aelodau etholedig, swyddogion y cyngor a'r gymuned ehangach.

Gall Cynghorwyr ymwneud hefyd â meysydd eraill, megis datblygu polisiau newydd ar gyfer y cyngor.

Mae gan y cyngor swyddogion yn gweithio iddo i roi cyngor, i weithredu penderfyniadau ac i reoli cyflwyno'i wasanaethau o ddydd i ddydd. Mae gan rai swyddogion ddyletswydd penodol i sicrhau bod y cyngor yn gweithredu o fewn y gyfraith ac yn defnyddio'i adnoddau'n ddoeth. Mae côd ymarfer yn llywodraethu'r cydberthynas rhwng swyddogion ac aelodau'r cyngor.

Trosolwg o'r Cyfarfodydd

Mae'r cyngor yn gweithredu o dan y system cyngor gweithredol, sef trefn lle mae cyd-gynghorwyr yn ethol Arweinydd i'r Cyngor ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol (CCB) ac mae hyd at naw o'u cyd-Gynghorwyr Bwrdeistref Sirol yn aelodau o'r Cabinet. Bydd mwyafrif penderfyniadau'r cyngor yn cael eu gwneud gan y Cyngor Llawn, y Cabinet neu Fwrdd Cabinet, fydd â chyfrifoldeb am wneud penderfyniadau mewn nifer o feysydd penodol.

Mae rhagor o wybodaeth am strwythur y pwyllgorau ar gael [yn y wefan](#).

Y Cyngor neu'r "Cyngor Llawn"

Y Cyngor yw cyfarfod o'r holl aelodau etholedig, 60 ohonynt, dan gadeiryddiaeth y Maer, gyda'r Dirprwy Faer yn Is-gadeirydd. Mae'n gyfrifol am swyddogaethau'r cyngor nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan y Cabinet. Y Cyngor sy'n penderfynu ar y fframwaith rheoli gwleidyddol a sut dylid dyrannu cynghorwyr i bwyllgorau eraill, yn fewnol ac yn allanol.

Rôl y Cyngor hefyd yw cytuno ar gyllideb y cyngor ar gyfer y flwyddyn sy'n dod a chytuno ar fframwaith polisi, penodi Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr, a chytuno ar unrhyw newidiadau i'r cyfansoddiad y mae'n rhaid i'r cyngor gadw ato.

Y Weithrediaeth neu'r Cabinet

Y Weithrediaeth yw enw arall ar gyfer y 10 Aelod Cabinet yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot. Mae'n cynnwys yr Arweinydd a naw cynghorydd arall, sydd i gyd yn cael eu penodi'n flynyddol gan y Cyngor. Mae'r Cabinet yn cwrdd fel corff cyfan i wneud penderfyniadau, ond hefyd mae gan bob Aelod unigol o'r Cabinet eu portffolio eu hunain o wasanaethau.

Y Cabinet sy'n gwneud y prif benderfyniadau trosfwaol ar gyfer y cyngor. Yn ogystal â'r Cabinet ei hun, mae tro Bwrdd Cabinet:

- Bwrdd Cabinet Addysg, Sgiliau a Llesiant
- Bwrdd Cabinet yr Amgylchedd, Adfywio a Gwasanaethau'r Strydlun
- Bwrdd Cabinet Gofal Cymdeithasol, Tai a Diogelwch Cymunedol

Mae rhaid i'r Cabinet wneud penderfyniadau sy'n cyd-fynd â pholisïau cyffredinol y cyngor a'i gyllideb. Fel arfer bydd rhaid cyfeirio unrhyw benderfyniad sydd y tu allan i'r fframwaith polisi neu gyllideb i'r Cyngor Llawn.

Pwyllgorau Craffu

Cyflwynwyd Pwyllgorau Craffu i sicrhau bod nifer mwy o'r cynghorwyr yn ymwneud â dylanwadu ar welliannau i bolisi a gwasanaethau'r Cyngor, ac yn fodd i wirio a sicrhau cydbwysedd ar gyfer penderfyniadau a wnaed gan y Cabinet. Yng Nghastell-nedd Port Talbot mae pedwar Pwyllgor Craffu – un ar gyfer pob Bwrdd Cabinet uchod. Eu rôl yw craffu ar benderfyniadau neu gyflwyno syniadau newydd i'r Cabinet a'r Bwrdd Cabinet iddyn nhw wneud penderfyniadau yn eu cylch. Ar hyn o bryd mae un Is-bwyllgor Craffu - Cabinet (Polisi ac Adnoddau), a sefydlwyd i graffu ar ein swyddogaethau polisi ac adnoddau.

Mae pob Pwyllgor Craffu yn cynnwys hyd at 16 o gynghorwyr o bleidiau gwleidyddol sy'n rhan o aelodaeth y cyngor, sy'n adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol cyffredinol y cyngor. Mae'r Pwyllgor Craffu ar gyfer Addysg, Sgiliau a Diwylliant hefyd yn cynnwys Rhiant-Lywodraethwyr Cyfetholedig a dau Gynrychiolydd Cyfetholedig o Esgobaethau'r Eglwys yng Nghymru a'r Eglwys Gatholig.

Mae Pwyllgorau Craffu'n cydweithio i sicrhau atebolrwydd, a gweithredu agored a thryloyw – eu prif rolau yw:

- Rhag-Graffu (ystyried penderfyniadau sydd i'w gwneud gan y Cabinet a Byrddau'r Cabinet cyn iddynt gael eu gwneud)
- Perfformiad (mae hyn yn cynnwys monitro perfformiad gwasanaethau)
- Polisi a Phartneriaeth (mae hyn yn cynnwys ystyried effaith polisiau a galw partneriaid y Cyngor i gyfrif)
- Ôl-Graffu (mae hyn yn cynnwys ystyried effaith penderfyniadau ar ôl iddynt gael eu gwneud)

Ar hyn o bryd mae 1 Is-bwyllgor Craffu yn ogystal:

- Is-bwyllgor (Polisi ac Adnoddau) y Cabinet, a sefydlwyd i graffu ar ein swyddogaethau polisi ac adnoddau.

Fel arfer bydd Pwyllgorau Craffu yn cynnal eu cyfarfodydd bob pedwar neu chwe wythnos. Mae'r cyfarfodydd ar agor i'r cyhoedd ac eithrio pan fydd eitemau preifat yn cael eu trafod (e.e. lle mae gwybodaeth bersonol neu ariannol am unigolion yn cael ei hystyried).

Pwyllgorau Rheoliadol

Mae nifer o Bwyllgorau Rheoliadol y mae'n gyfreithiol ofynnol eu bod gan y cyngor, ac mae'r rhain yn fforymau gwneud penderfyniadau. Yn eu plith mae:

- Panel Apeliadau
- Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd
- Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
- Pwyllgor Deddfau Trwyddedu a Hapchwarae

- Is-bwyllgor Deddfau Trwyddedu a Hapchwarae
- Pwyllgor Personél
- Pwyllgor Cynllunio
- Pwyllgor Cofrestru a Thrwyddedu
- Pwyllgor Penodiadau Arbennig
- Pwyllgor Safonau

Sut mae pwyllgorau'n penderfynu pa faterion i'w hystyried?

Mae gan y rhan fwyaf o bwyllgorau flaenraglen waith, sydd ar gael i'r cyhoedd [ar y wefan](#). Caiff y blaenraglenni gwaith eu datblygu mewn nifer o ffyrdd:

- Bydd swyddogion y cyngor yn eu llenwi â'r materion sy'n codi, sydd ar yr amserlen i'w cwblhau, neu oherwydd bod gofyniad deddfwriaethol i adolygu'r polisi presennol.
- Bydd cadeirydd y pwyllgor hefyd yn cynnwys eitemau maen nhw'n barnu sy'n bwysig i'r pwyllgor neu y deuydd â nhw at eu sylw, e.e. eitemau mae aelodau o'r cyhoedd wedi gofyn i'r pwyllgor eu hystyried.

Sut gallwch chi weld beth sydd i gael ei drafod mewn cyfarfod?

Cyhoeddir papurau cyfarfodydd [ar wefan y cyngor](#) o leiaf dri diwrnod gwaith clir cyn pob cyfarfod o'r Cyngor, y Cabinet neu Bwyllgor Craffu. Bydd nifer bach o gopiâu papur o'r agenda a'r adroddiadau yn cael eu darparu i'r cyhoedd yn y cyfarfod. Bydd y rhain yn cynnwys:

- Agenda yn nodi lleoliad, dyddiad ac amser y cyfarfod, yn ogystal â rhestr o'r eitemau y bydd y pwyllgor yn eu trafod.
- Adroddiadau yn rhoi manylion pam mae angen gwneud pob penderfyniad, gwybodaeth gefndir ynghylch y materion sy'n codi am y pwnc, ac argymhelliad ynghylch y penderfyniad y dylid ei wneud.

Cymerir cofnodion (nodiadau) ym mhob cyfarfod o'r Cyngor, y Cabinet/Cabinet, y Pwyllgor Craffu a Rheoleiddio a chytunir arnynt ar gyfer y cyfarfod perthnasol nesaf. Bydd y cofnodion yn gweithredu fel cofnod gwir o drafodion cyfarfod penodol. Bydd y cyngor yn darparu agendâu, cofnodion ac adroddiadau unrhyw un o bwyllgorau'r cyngor i'w harchwilio am gyfnod o chwe blynedd.

Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd y Cyngor hefyd yn cael eu recordio a'u cyhoeddi mewn archif i'r trigolion eu gwyllo'n ddiweddarach ar dudalen YouTube y cyngor. Mae rhagor o wybodaeth a recordiadau o'r cyfarfodydd ar gael [ar ein gwefan](#).

7. Sut gallwch chi ddylanwadu ar benderfyniadau?

Pleidleisio

Mae pleidleisio mewn etholiadau yn ffordd bwysig o sicrhau bod eich llais yn cael ei glywed. [Cynhelir Etholiadau Llywodraeth Leol](#) bob pum mlynedd, ac wrth bleidleisio gallwch chi gyflawni newid ar lefel leol a lleisio barn ar bwy fydd yn eich cynrychioli chi a'r ardal lle rydych chi'n byw ar y cyngor.

Mae'r berthynas rhwng cynghorydd a'u hetholaeth yn un ddwy ffordd – yn gyfnewid am eich pleidlais, mae'n rhaid iddyn nhw geisio eich cynrychioli yn y ffordd orau sy'n bosibl.

I bleidleisio mewn etholiadau mae angen i chi fod dros 16 oed, a rhaid i'ch enw fod ar y Gofrestr Etholiadol. Gallwch chi gofrestru ar-lein yn www.gov.uk/register-to-vote

Sefyll fel cynghorydd

Mae llawer o resymau pam gallech chi benderfynu sefyll fel cynghorydd – efallai eich bod eisoes yn weithredol yn eich cymuned, wedi ymrwmo i blaid wleidyddol benodol, neu eisiau dylanwadu ar newid yn eich cymuned a'r fwrdeistref sirol.

I sefyll i gael eich ethol i'r cyngor bwrdeistref sirol, rhaid i chi fod dros 18, bod yn ddinesydd Prydain, y Gymanwlad neu Ewrop, a bodloni un o'r pedwar maen prawf canlynol:

- Rydych wedi cofrestru fel etholwr llywodraeth leol oddi mewn i ardal yr awdurdod lleol, a bydd hynny'n parhau.
- Rydym wedi meddiannu fel perchennog neu denant unrhyw dir neu safle o fewn yr awdurdod lleol am y 12 mis cyfan cyn diwrnod yr enwebiad a'r etholiad.
- Mae eich prif neu eich unig weithle wedi bod o fewn ardal yr awdurdod lleol am y 12 mis cyfan cyn dyddiad yr enwebiad a'r etholiad.
- Rydych wedi byw yn ardal yr awdurdod lleol am y 12 mis cyfan cyn dyddiad yr enwebiad a'r etholiad.

Hefyd gallwch sefyll i gael eich ethol i gynghorau tref a chymuned yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Cynhaliwyd yr etholiadau llawn i'r Cyngor Bwrdeistref Sirol a'r Cynghorau Tref a Chymuned ym mis Mai 2022. Gall lleoedd gwag godi yn ystod cyfnod gwasanaeth pob cyngor, a chaiff y rhain eu hyrwyddo ar [wefan Cyngor CnPT](#) yn ogystal ag yn yr ardal leol.

Mynychu cyfarfod

Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd y Cyngor, ynghyd â'r Cabinet, y Byrddau Cabinet a chyfarfodydd Pwyllgorau eraill, ar agor i'r cyhoedd eu mynychu a gwyllo'r hyn sy'n digwydd a'r trafodaethau, ac eithrio pan fydd materion personol neu gyfrinachol yn cael eu trafod.

Cynhelir y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yng Nghanolfan Ddinesig Port Talbot, ond gallwch arsylwi cyfarfodydd yn fyw hefyd trwy Microsoft Teams. Bydd angen i chi gofrestru ymlaen llaw i fod yn rhan o'r oriel gyhoeddus rithwir, a gallwch wneud hynny trwy e-bostio democratic.services@npt.gov.uk erbyn 12 ganol dydd y diwrnod cyn y cyfarfod. Mae dyddiadau ac amserau cyfarfodydd sydd i ddod i'w gweld [ar ein gwefan](#).

Ychwanegu eitem i'w thrafod at agenda

Gall aelod o'r cyhoedd annog pwyllgor i ystyried eitem a'i hychwanegu at agenda cyfarfod yn y dyfodol mewn dwy ffordd.

- Gall unrhyw aelod o'r cyhoedd gysylltu â chadeirydd Cabinet/Bwrdd Cabinet neu pwyllgor a gofyn eu bod yn ychwanegu eitem at y flaenraglen waith ar gyfer trafodaeth yn y dyfodol
- Mynychu cyfarfod o'r Cabinet/Bwrdd Cabinet neu pwyllgor dan sylw a gwneud cais yn y cyfarfod o dan yr eitem blaenraglenni gwaith bod eitem yn cael ei hychwanegu i'w hystyried yn y dyfodol.

Cyflwyno cwestiwn i'r Cyngor

O dan [Brotocol y cyngor ar gyfer Siarad yng Nghyfarfodydd y Cyngor](#), caniateir cyfnod o hyd at 15 munud ym mhob cyfarfod ar gyfer cwestiynau gan y cyhoedd.

Gall unrhyw un (heblaw Aelodau neu gyflogeion y Cyngor) sy'n byw neu'n gweithio yng Nghastell-nedd Port Talbot ofyn cwestiynau i Aelodau'r Cabinet neu gadeiryddion pwyllgorau'r Cyngor.

I ofyn cwestiwn, rhaid rhoi rhybudd yn ysgrifenedig neu trwy e-bost democratic.services@npt.gov.uk heb fod yn hwyrach na 5pm, ddau ddiwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod. Rhaid i bob cwestiwn gynnwys enw a chyfeiriad y sawl sy'n holi, a nodi i bwy y mae'r cwestiwn i'w ofyn (yn ôl enw neu deitl).

Lle bydd yr holwr yn nodi eu bod yn dymuno gofyn eu cwestiynau yn Gymraeg, ceisir sicrhau cyfieithiad Cymraeg ar gyfer y cwestiwn a'r ateb dan sylw. Os na fydd cyfieithiad Cymraeg ar gael, trafodir hynny gyda'r holwr, a bydd trefniadau amgen yn cael eu hystyried/ceisio.

Cyfyngir nifer y cwestiynau y gall unigolyn eu gofyn mewn blwyddyn ddinesig i ddau (er mwyn sicrhau bod pob unigolyn yn cael cyfle i fynychu cyfarfodydd o'r fath). Ond os bydd person yn dymuno mynychu cyfarfod i ofyn cwestiwn dros ben y ddau achlysur yma, mae ganddynt hawl i wneud cais am hynny.

Gall ateb fod ar ffurf y canlynol:

- ateb llafar a roddir gan y person y cyfeirir y cwestiwn atynt neu berson arall a enwebir ganddynt;
- os yw'r wybodaeth a ddymunir ar gael yn un o gyhoeddiadau'r cyngor neu mewn gwaith arall a gyhoeddwyd, cyfeiriad at y cyhoeddiad hwnnw; neu
- os na ellir rhoi'r ateb yn gyfleus ar lafar, ateb ysgrifenedig a ddosbarthir i Gynghorwyr yn ddiweddarach.

Cyflwyno barn i bwylgorau craffu

Mae croeso i'r cyhoedd fynychu unrhyw un o'r pum Pwyllgor Craffu. Os oes gennych chi ddi-ddordeb arbennig mewn pwnc, gallwch chi gysylltu â'ch cynghorydd lleol neu'r Tîm Craffu ar 01639 763194 neu democratic.services@npt.gov.uk

Gellir gwahodd aelodau o'r cyhoedd hefyd i hysbysu a darparu gwybodaeth i grwpiau ymchwiliadau penodol. Cewch ragor o wybodaeth yn www.npt.gov.uk/scrutiny

Cysylltu â'ch cynghorydd lleol

Gallwch gysylltu â'ch cynghorydd lleol i drafod materion o fewn eich ward. Os nad ydych chi'n siŵr pwy yw eich cynghorydd, mae rhestr o gynghorwyr y fwrdeistref sirol a'u manylion cyswllt ar gael ar wefan y cyngor www.npt.gov.uk/Cynghorwyr, neu fel arall mae'r wybodaeth honno ar gael i chi trwy gysylltu â'r cyngor ar 01639 686868.

Cyflwyno sylw neu gŵyn

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn ystyried pob sylw, canmoliaeth a chŵyn yn ffynhonnell amhrisiadwy o wybodaeth am y gwasanaethau rydym ni'n eu darparu. Os ydych am roi gwybod i ni am rywbeth rydym ni wedi'i wneud yn dda, os ydych am roi adborth ar rywbeth, neu os hoffech gwyno am rywbeth, rydym bob amser yn falch o glywed oddi wrthyich.

Gallwch wneud cŵyn neu ganmoliaeth mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

- Ar [ein gwefan](#)
- Drwy e-bost: contactus@npt.gov.uk
- Drwy lythyr – Cyngor Castell-nedd Port Talbot, Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA12 1PJ
- Dros y ffôn: 01639 686868 – gofynnwch am drosglwyddo'ch adborth i'r gwasanaeth i roi eich adborth

Gallwch roi adborth i ni ym mha fformat (print bras, Braille, ar dâp neu ddisg) neu iaith bynnag y dymunwch.

Deisebau

Mae creu neu gymryd rhan mewn deiseb yn un ffordd y gall unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau ddylanwadu ar benderfyniadau'r cyngor. Rydym ni'n croesawu deisebau fel modd i'n trigolion leisio'u barn a gofyn am weithredu. Mae gan y cyngor [Gynllun Deisebau](#) sy'n nodi'r gweithdrefnau ar gyfer deisebau a sut byddan nhw'n derbyn sylw.

Dogfennau (digidol neu ddiriaethol) yw deisebau sy'n cynnwys manylion materion sy'n bwysig i gymunedau a/neu'r fwrdeistref sirol gyfan, maent yn amlinellu gweithredu arfaethedig, ac wedi'u harwyddo gan bobl sy'n cefnogi hynny.

Mae deiseb yn gallu gwneud y canlynol:

- Cynyddu ymwybyddiaeth o fater;
- Cyflawni newid ym Mholisi'r Cyngor neu ffordd wahanol o gyflwyno gwasanaethau
- Sbarduno aelodau o'r Cyngor i gymryd camau pellach, er enghraifft gofyn cwestiynau yn y Cyngor Llawn
- Arwain at drafodaeth mewn cyfarfod o'r Cyngor, neu ddylanwadu ar hynny

Cyn cyflwyno deiseb dylech wirio gyntaf gyda'ch cynghorydd lleol i weld ydy'r cyngor eisoes yn gweithredu ynghylch eich pryderon ac ai'r cyngor yw'r corff mwyaf priodol i dderbyn eich deiseb.

Gall ymateb y cyngor ddibynnu hefyd ar nifer y bobl sydd wedi llofnodi'r ddeiseb. Mae'r tabl isod yn nodi'r trothwyon:

Nifer y Llofnodwyr	Ymateb
20-100	Ymateb gan y cyfarwyddwr/pennaeth gwasanaeth perthnasol (trin fel gohebiaeth safonol)
101-500	Ymateb gan yr Aelod Cabinet perthnasol
500+	Cyfeirio ar gyfer trafodaeth mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn neu'r cyfarfod perthnasol o'r Cabinet/Bwrdd Cabinet/Pwyllgor

Ymgynghori Cyhoeddus ac Ymgysylltiad

Mae'r cyngor bob amser wedi ymgynghori â phobl leol ar ystod eang o bolisïau a chynigion, ond roedd ein hymgyrch 'Dewch i Sgwrsio' yn 2021 yn newid sylfaenol o'n dull traddodiadol o ymgysylltu.

Yn hytrach na chyflwyno cynnig drafft ar gyfer sylwadau, gofynnwyd cyfres o gwestiynau a luniwyd i'n helpu i ddeall yn iawn effaith Covid-19 ar ein cymunedau, beth sy'n bwysig i bobl heddiw ac ar gyfer y dyfodol, a sut gallwn ni sicrhau bod yr ysbryd o gydweithio a ddatblygodd drwy'r pandemig yn parhau.

Datblygwyd cynllun adferiad drafft ar sail yr ymatebion, ac yna ymgynghorwyd ar hynny i sicrhau ein bod wedi deall yn iawn beth ddywedodd pobl wrthym ni, a'n bod ni'n adlewyrchu hynny. Trwy gasglu barn a safbwyntiau busnesau lleol a thrigolion yn gynnar iawn wrth gynllunio, roedd modd i ni lunio ein hamcanion llesiant a'n camau gweithredu cysylltiedig ar sail beth sy'n bwysig yn lleol.

Byddwn ni'n datblygu 'Dewch i Sgwrsio' ymhellach, fel ein bod ni'n derbyn adborth parhaus gan ein trigolion, ein staff, ein busnesau a'n partneriaid, ac yn cynyddu cyfranogiad yng ngwaith y cyngor.

Mae gwybodaeth ynghylch ymgynghoriadau yn awr ac yn y dyfodol ar gael ar ein gwefan: www.npt.gov.uk/ymgyngoriadau

Panel Dinasyddion CnPT

Mae'r Cyngor yn gwerthfawrogi barn holl drigolion y fwrdeistref sirol, ac mae am iddynt fedru cyfrannu at ddatblygu polisi a gwasanaeth. Bydd y panel Dinasyddion yn golygu bod ein trigolion yn gallu rhoi adborth ar ein gwaith yn haws, a chyfrannu at ein penderfyniadau yn gynnar iawn yn y broses.

Gallwch ymuno â'r Panel Dinasyddion os ydych chi dros 16 oed ac yn byw ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Fel aelod o'r Panel Dinasyddion, byddwch yn derbyn negeseuon e-bost lle cewch eich gwahodd i gymryd rhan mewn arolygon ar-lein. Ni fydd mwy na 12 o arolygon y flwyddyn, a hynny ar ystod o faterion sy'n effeithio ar bobl a gwasanaethau ym mwrdeistref sirol. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno, byddem ni wrth ein bodd yn clywed oddi wrthyich chi. Mae rhagor o wybodaeth ar gael [yn ein gwefan](#).

Cyflogeion Cyngor CnPT a'r Undebau Llafur

Mae cyflogeion Cyngor Castell-nedd Port Talbot a'r undebau llafur yn rhanddeiliaid allweddol o ran sut rydym ni'n cyflwyno gwasanaethau. Mae ein gwaith mewn partneriaeth gymdeithasol â'r undebau llafur yn adlewyrchiad o'n harferion gwaith teg, ein cynhwysedd a'n hamrywiaeth.

Mae canran uchel o'n cyflogeion yn byw yn y fwrdeistref sirol (tua 70%) a'n gweithwyr rheng flaen yw ein cysylltiad agosaf ag aelodau o'r cyhoedd, felly mae eu cyfranogiad mewn penderfyniadau yn bwysig.

Rydym ni'n ymgysylltu'n rheolaidd â'n cyflogeion, trwy ymgyrchoedd ymgynghori ac ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar ein gweithwyr a thrwy eu hannog i ymuno yn ein hymarferion ymgynghori ac ymgysylltu cyhoeddus (sydd bob amser yn cynnwys cyfle iddynt nodi eu statws fel gweithwyr i'r cyngor).

Mae Strategaeth newydd yn cael ei datblygu ar gyfer Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Chyflogeion. Bydd hyn yn darparu fframwaith ar gyfer cyfranogiad, ymwneud ac ymgysylltiad ein gweithwyr, gan sicrhau dull gweithredu corfforaethol, cydlynus.

Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Pasiodd Llywodraeth Cymru gyfraith yn 2015 o'r enw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Mae'r Ddeddf yn gofyn bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei sefydlu ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Castell-nedd Port Talbot ym mis Mai 2016 i ddod â sefydliadau lleol ynghyd a chryfhau eu dull o gydweithio er mwyn gwella llesiant y bobl sy'n byw yn ein bwrdeistref sirol.

Mae'r BGC yn bartneriaeth o sefydliadau cyhoeddus a gwirfoddol lleol ar draws yr ardal, sy'n cynnwys:

- **Partneriaid statudol:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot; Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe; Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru
- **Cyfranogwyr a wahoddir:** Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol CnPT; Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; Heddlu De Cymru; Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant; Tai Tarian; Llywodraeth Cymru; Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Cwmni Ailsefydlu Cymunedol Cymru; Cyngorau Tref a Chyngorau Cymuned; Canolfan Byd Gwaith; Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd; Grŵp Colegau CnPT

Yn unol â'r Ddeddf, bu'r BGC yn asesu cyflwr cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol llesiant ar draws yr ardal. Er mwyn deall sut gallai hyn effeithio ar lesiant, mae'r BGC yn casglu llawer o wybodaeth am gryfderau pobl a chymunedau, ac yn disgrifio'r heriau a'r cyfleoedd mae Castell-nedd Port Talbot yn eu hwynebu nawr ac yn y dyfodol. Defnyddiwyd yr wybodaeth hon yn yr [Asesiad Llesiant](#), a gyhoeddwyd yn 2022.

Mae'r BGC wedi ymrwmo i geisio barn a safbwyntiau'r trigolion ynghylch yr holl bolisiau a phenderfyniadau a wnaed, a sut gallwn ni wneud gwelliannau yn y dyfodol.

Mae'r BGC am greu Castell-nedd Port Talbot lle bydd pobl yn cael y cyfle gorau i lwyddo mewn bywyd. Mae llawer o bethau y gallwn ymfalchïo ynddynt yng Nghastell-nedd Port Talbot, ond maent yn cydnabod bod heriau mawr hefyd. Mae'r BGC wedi archwilio ble gallant wneud y gwahaniaeth mwyaf ac wedi ymgynghori â phobl leol, fel eu bod bellach wedi penderfynu ar chwe blaenoriaeth fydd yn derbyn sylw ganddynt yn ystod y blynyddoedd nesaf. Mae'r Cynllun Llesiant Lleol yn esbonio beth yw'r blaenoriaethau hyn, sut bydd gwaith yn cychwyn arnynt, a sut gall pobl a sefydliadau lleol fod yn rhan o'r gwaith yma.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.npt.gov.uk/psb.

Y Cyngor Ieuenctid

Grŵp o bobl ifanc rhwng 11 a 25 oed o'r fwrdeistref sirol yw Cyngor Ieuenctid CnPT. Maen nhw'n teithio'r filltir ychwanegol i hybu Hawliau Plant a Phobl Ifanc trwy rymuso pobl ifanc i leisio barn a dylanwadu ar newid mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Mae'r Cyngor Ieuenctid yn cwrdd â llunwyr penderfyniadau ar lefel leol i chwyddo'u lleisiau, cyfoethogi prosesau gwneud penderfyniadau, rhannu safbwyntiau a chyfranogi fel dinasyddion gweithredol, gwirfoddolwyr, ymgyrchwyr a hwyluswyr newid. Fel rhan o'i waith, mae'r Cyngor Ieuenctid yn cwrdd â'r aelodau etholedig bob tri mis, ac yn cyflwyno ceisiadau i'r cynghorwyr yn effeithiol ar ran pobl ifanc sy'n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Mae aelodau'r Cyngor Ieuenctid hefyd yn chwarae rhan yn eu cymunedau ac mewn prosesau democrataidd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae ganddyn nhw gynrychiolaeth ar BAYouth (Panel Ymgynghorol Ieuenctid Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe), Senedd Ieuenctid y Deyrnas Unedig, ac maent yn Llysgenhadon Ifanc gyda Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyngor Ieuenctid Prydain.

Maent wedi cael effaith fesuradwy dros y blynyddoedd fel eiriolwyr angerddol dros y rhai sy'n agored i niwed neu'n llai abl i siarad drostynt eu hunain, trwy greu cyfleoedd i bobl ifanc gyfranogi fel aelodau etholedig a chael llais, e.e. LHDTTC+, BAME, Plant sy'n Derbyn Gofal a Gofalwyr Ifanc.

Cynhelir etholiadau democrataidd i'r Cyngor Ieuenctid bob dwy flynedd. Mae creu cyfleoedd i grwpiau diddordeb arbennig gyfranogi yn allweddol, ac mae cyngor Ieuenctid 2019 - 2021 yn cynnal corff bywiog, cynhwysol a chynrychioliadol ym mwrdeistref sirol.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno, cysylltwch â Gwasanaeth Ieuenctid CnPT ar 01639 763030 neu youth.service@npt.gov.uk.

Cyfyngau Cymdeithasol

Mae'r cyfyngau cymdeithasol wedi dod yn offeryn prif ffrwd i gynghorau a chynghorwyr hysbysu ac ymgysylltu â'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.

Mae gan y cyngor nifer o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol a gwasanaeth-benodol. Mae'r rhain yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar ein cymunedau, ond wrth symud ymlaen, mae angen i ni ystyried sut rydym yn datblygu'r rhain yn fecanwaith cyfranogi er mwyn i'r gymuned ar-lein gymryd rhan mewn ymgynghoriadau ac ymgyrchoedd ymgysylltu.

Gallwch ddilyn y cyngor ar:

- Twitter - @NPTCouncil; @CyngorCnPT
- Facebook - @NPTCouncil; @CyngorCnPT
- Instagram - NPT Council
- LinkedIn - Neath Port Talbot CBC
- YouTube - Neath Port Talbot CBC

Mae gan nifer cynyddol o gynghorwyr bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol. Fel cynghorydd, mae rhai pethau ychwanegol i'w hystyried wrth eu defnyddio, gan gynnwys y Côd Ymddygiad, rheoli disgwyliadau a llwyth gwaith. Mae'r cyngor yn rhoi hyfforddiant ac arweiniad i gynghorwyr ar sut mae defnyddio cyfryngau cymdeithasol er budd pan gânt eu hethol gyntaf, a rhoi diweddariadau cyson ar amrywiol faterion ar hyd y flwyddyn.

8. Mecanweithiau i annog a chefnogi pobl leol i gyfranogi yn ein penderfyniadau?

Mae gan y cyngor eisoes nifer o fecanweithiau i annog a chefnogi pobl leol i gyfranogi yn ei benderfyniadau. Cyflwynwyd y rhain o dan bob un o'r chwe gofyniad a restrir ar dudalen 3:

Gofyniad 1: Hybu ymwybyddiaeth o'r swyddogaethau mae'r cyngor yn eu cyflawni ar gyfer trigolion lleol, busnesau ac ymwelwyr

Pwrpas	Rhannu gwybodaeth am swyddogaethau a gwasanaethau'r cyngor fel bod y trigolion yn cael gwybod sut mae'r cyngor yn gweithio, er mwyn iddyn nhw fedru rhoi barn wybodus wrth gyfranogi
Beth sydd gennym yn ei le eisoes i gyflawni hyn	<ul style="list-style-type: none">• Y Cynllun Corfforaethol a strategaethau cysylltiedig sydd ar gael i'r cyhoedd www.npt.gov.uk/CynllunCorfforaethol• Gwefan y Cyngor www.npt.gov.uk

	<ul style="list-style-type: none"> • Modern.Gov – Adran Ddemocratiaeth y wefan, lle gall trigolion gyrchu agenda a chofnodion cyfarfodydd neu edrych ar benderfyniadau • Rhai cyfarfodydd yn cael eu ffrydio'n fyw a mynediad at recordiadau o gyfarfodydd y mae modd i'r cyhoedd eu gwyllo ar-lein • Cyfryngau Cymdeithasol • Cyfarfodydd y Cyngor, y Cabinet a'r amrywiol bwyllgorau. • Defnyddio'r cyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad ac addysgu 'rôl Cynghorydd' trwy Gyfnod Allweddol 3, Bagloriaeth Cymru a gwersi dinasyddiaeth mewn ysgolion, gan gysylltu ag unrhyw gwricwlwm newydd sy'n cael ei ddarparu • Gwasanaethau Cymdeithasol y cyngor yn Cyd-gynhyrchu Datganiad o Fwriad – cysylltiadau â Strategaeth Cyd-gynhyrchu Gorllewin Morgannwg
--	--

Gofyniad 2: Rhannu gwybodaeth am sut mae mynd ati i ddod yn aelod etholedig, neu gynghorydd, a beth sydd dan sylw yn rôl y cyngor

<p>Pwrpas</p>	<p>Galluogi ac annog pobl i sefyll am le yn y cyngor, gan gynrychioli'r bobl yn eu cymunedau eu hunain ac ar draws y fwrdeistref sirol.</p>
<p>Beth sydd gennym yn ei le eisoes i gyflawni hyn</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Y Wefan, Tudalennau'r Cyngor a Democratiaeth • Tudalen Dod yn Gynghorydd • Rhaglen hyfforddi a sefydlu lawn i gefnogi aelodau a hyfforddiant a chymorth parhaus • Seminarau rheolaidd i'r aelodau i sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ac yn ymwneud â datblygiadau • Lwfans yr aelodau'n cael ei bostio ar wefan y Cyngor • Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Amcanion Llesiant – mae gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot arweinyddiaeth gref a llywodraethu clir ynghylch cydraddoldeb, gan sicrhau prosesau monitro cadarn ac ymgysylltu rheolaidd ystyrlon â rhanddeiliaid. • Maer Ieuenctid CnPT • Cyngor Ieuenctid CnPT

Gofyniad 3: Darparu mwy o fynediad at wybodaeth am benderfyniadau a wnaed, neu a wneir, gan y cyngor

<p>Pwrpas</p>	<p>Helpu i adeiladu ar y diwylliant o bartneriaeth trwy sicrhau bod pobl yn ymwybodol o benderfyniadau sydd i ddod, cyfleoedd i gyfranogi ynddynt, a sut mae eu cyfranogiad yn dylanwadu ar ein penderfyniadau</p>
<p>Beth sydd gennym yn ei le eisoes i gyflawni hyn</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Y Wefan www.npt.gov.uk • Modern.Gov - Adran Ddemocratiaeth y wefan, lle gall trigolion gyrchu agenda a chofnodion cyfarfodydd neu edrych ar benderfyniadau • Ymgynghori ac arolygon • Mae'r cyngor yn defnyddio data i lywio cynigion, gan gynnwys data o ffynonellau allanol a phartneriaid lle bo hynny'n briodol • Mae'r cyngor yn cydweithio'n agos â phartneriaid i rannu wybodaeth am benderfyniadau ac ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r trigolion • Mae'r cyngor yn gweithio gyda grwpiau cymunedol i sicrhau bod gwybodaeth am benderfyniadau'n cael ei rhannu, a bod ystod o safbwyntiau'n cael eu clywed • Mae'r cyngor yn defnyddio mecanweithiau i ymgysylltu â grwpiau sydd o dan anfantais a buddiannau cydraddoldeb e.e. y Cyngor Ieuencid, Fforymau Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, grwpiau anabledd etc. • Mae'r cyngor yn ymgysylltu â dinasyddion fel mater o drefn ar benderfyniadau corfforaethol allweddol e.e. y gyllideb a'r cynllun ariannol tymor canolig • Mae gan y cyngor fecanweithiau rheolaidd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys y panel dinasyddion • Gwasanaethau Cymdeithasol y cyngor yn Cyd-gynhyrchu Datganiad o Fwriad – cysylltiadau â Strategaeth Cyd-gynhyrchu Gorllewin Morgannwg

Gofyniad 4: Darparu a hyrwyddo cyfleoedd i drigolion roi adborth i'r Cyngor, gan gynnwys sylwadau, cwynion a mathau eraill o sylwadau

Pwrpas	Annog pobl i gyfranogi trwy sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gwahanol ffyrdd y gallan nhw roi eu barn, er mwyn iddyn nhw allu dewis y mecanwaith mwyaf addas iddyn nhw.
Beth sydd gennym yn ei le eisoes i gyflawni hyn	<ul style="list-style-type: none"> • Y Wefan www.npt.gov.uk • Ffurflenni digidol • Polisi Sylwadau, Canmoliaeth a Chwynion ac adrodd yn rheolaidd am y sylwadau a dderbyniwyd • Ymgynghori ac arolygon • Modern.Gov - Adran Ddemocratiaeth y wefan, lle gall trigolion gyrchu agenda a chofnodion cyfarfodydd neu edrych ar benderfyniadau • Mae'r cyngor yn gweithio gyda grwpiau cymunedol i sicrhau bod gwybodaeth am benderfyniadau'n cael ei rhannu, a bod ystod o safbwyntiau'n cael eu clywed. • Cynllun Deisebau • Siarad Cyhoeddus yng Nghyfarfodydd y Cyngor • Craffu ar gyfleoedd i Ymgysylltu â'r Cyhoedd • Gwasanaethau Cymdeithasol y cyngor yn Cyd-gynhyrchu Datganiad o Fwriad – cysylltiadau â Strategaeth Cyd-gynhyrchu Gorllewin Morgannwg

Gofyniad 5: Trefniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, at ddiben dyletswydd y cyngor i ddod â barn y cyhoedd at sylw pwyllgorau craffu a throsolwg

Pwrpas	Hysbysu pobl am rôl craffu a sut gallan nhw fod yn rhan o hynny
Beth sydd gennym yn ei le eisoes i gyflawni hyn	<ul style="list-style-type: none"> • Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd fynychu Pwyllgorau Craffu • Os oes gan aelodau o'r cyhoedd ddi-ddordeb penodol mewn pwnc, gallan nhw gysylltu â'u cynghorydd lleol neu'r Tîm Craffu • Gellir gwahodd aelodau o'r cyhoedd hefyd i lywio a darparu gwybodaeth i grwpiau ymholi penodol • Mae'r Pwyllgorau Craffu yn pennu blaenraglen waith o ran pryd byddan nhw'n cwrdd a beth y byddant yn ei ystyried

Gofyniad 6: Hybu ymwybyddiaeth cyngorwyr o fanteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â'r trigolion

Pwrpas	Annog cyngorwyr i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i hysbysu ac ymgysylltu â'u cymunedau trwy eu gwneud yn ymwybodol o fanteision defnydd, ochr yn ochr â'u cefnogi i sicrhau defnydd mor effeithiol â phosib, mewn modd nad yw'n eu gadael yn agored i her gyfreithiol, risg personol neu risg i'w henw da.
Beth sydd gennym yn ei le eisoes i gyflawni hyn	<ul style="list-style-type: none">• Sianeli cyfryngau cymdeithasol (corfforaethol a gwasanaeth-benodol)• Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Canllawiau i Gyngorwyr Newydd – 'Gwella Dinasyddiaeth Ddigidol – Ymchwil ac Arfer Gorau'• Hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol i gyngorwyr

9. Cynllun Gweithredu Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus Cyngor CnPT

Adeiladu ar ein mecanweithiau presennol ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd

Gofyniad 1: Hybu ymwybyddiaeth o'r swyddogaethau mae'r cyngor yn eu cyflawni ar gyfer trigolion lleol, busnesau ac ymwelwyr

Camau Gweithredu

- Cyhoeddi fersiwn derfynol o'r Strategaeth Cyfranogiad Cyhoeddus
- Cyhoeddi Canllaw i'r Broses Ddemocrataidd a sut mae'r cyngor yn gwneud penderfyniadau
- Sicrhau bod blaengynllun y cyngor yn cefnogi ymgysylltiad y cyhoedd trwy fod yn hygyrch, yn amserlen ac yn hwylus i'w ddefnyddio
- Hyrwyddo Canllawiau/deunyddiau Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc 16 ac 16 oed ynghylch Democratiaeth yng Nghymru. Archwilio platfformau ar y we.
- Etholiadau a'r Gyfarwyddiaeth Addysg i archwilio llwybrau eraill posibl trwy fforymau ysgol/gyngorau ysgol/ffeiriau gyrfaoedd.

- Parhau i ymgysylltu ag ysgolion, gan gynnwys cysylltiadau â chynghorau ysgol a chynghorau ieuenctid.
- Cadw mewn cysylltiad â grwpiau cymunedol lleol, llywodraethwyr ysgol a sefydliadau eraill o'r fath i sicrhau bod cysylltiadau â'r dudalen 'Dod yn Gynghorydd' yn cael eu hyrwyddo.
- Cwrdd â rhanddeiliaid wyneb yn wyneb yn eu cymunedau a'u grwpiau eu hunain er mwyn dod i'w hadnabod nhw a'r materion sy'n bwysig iddyn nhw yn well.
- Parhau i ddarlledu cyfarfodydd ar y we, fel y nodwyd o dan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a datblygu polisi cyfarfodydd hybrid, gan sicrhau argaeledd cyfleusterau cyfieithu fel bod cyfarfodydd y Cyngor Llawn yn cael eu cynnal yn ddwyieithog, a hefyd unrhyw gyfarfodydd eraill sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth.
- Hyrwyddo ymhellach ddatblygiad cynghorwyr blynyddol aelodau o dan adran 5 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, yn fodd i hybu ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r cyngor a rôl cynghorwyr.

Gofyniad 2: Rhannu gwybodaeth am sut mae mynd ati i ddod yn aelod etholedig, neu gynghorydd, a beth sydd dan sylw yn rôl y cyngor

Camau Gweithredu

- Parhau â chyfarfodydd hybrid sy'n golygu bod modd i gynghorwyr fynychu a chyfranogi mewn cyfarfodydd o unrhyw leoliad lle mae cysylltiad â'r Rhyngwyd
- Sicrhau bod gwybodaeth ar gyfer darpar gynghorwyr ar gael ac yn addas at y diben
- Adolygu'n barhaus effeithiolrwydd yr ymgyrchoedd cynyddu ymwybyddiaeth o bleidleisio ar gyfer etholiadau, ac adeiladu ar yr ymgyrchoedd hyn cyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2027, gan sicrhau bod trefniadau partneriaeth ehangach yn cael eu symud ymlaen fel bod modd ymgysylltu â chynulleidfaoedd ehangach
- Cadw mewn cysylltiad ag arweinwyr grwpiau gwleidyddol i awgrymu eu bod yn penodi Hyrwyddwyr Amrywiaeth ar gyfer pob grŵp gwleidyddol
- Adolygu meysydd hyfforddi a datblygu y mae modd eu darparu ar-lein, set graidd o ddeunyddiau hyfforddi y mae modd eu defnyddio ar gyfer yr holl cynghorydd
- Hyrwyddo rhannu swyddi gan arweinwyr y weithrediaeth a deiliaid swyddi eraill
- Sicrhau bod yr aelodau'n ymgymryd â hyfforddiant iechyd a diogelwch, hyfforddiant gweithio ar eu pen eu hunain a mesurau diogelwch personol eraill
- Hyrwyddo'r taliadau sydd ar gael i gynghorydd ar wefan y cyngor ac i ymgeiswyr sy'n sefyll mewn etholiad
- Cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru a Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i archwilio grantiau Ailsefydlu neu 'daliadau parasiwt' i Aelodau sy'n colli eu seddau mewn etholiad

- Adolygu amserau cyfarfodydd fel bod mwy o hyblygrwydd fydd yn addas i Aelodau pwyllgor
- Cynnal arolwg amrywiaeth a chynhwysiad gyda'r cynghorwyr a fydd yn darparu meincnod ar gyfer etholiadau yn y dyfodol ac yn golygu bod modd adolygu'r adborth i gefnogi/archwilio rhwystrau y gall cynghorydd fod wedi'u profi yn ystod eu cyfnod o wasanaeth. Bydd adborth yr arolwg yn helpu i gyflwyno amgylchedd cadarnhaol ac amrywiol i cynghorydd'r dyfodol ymgymryd â'u rolau
- Archwilio dichonoldeb gweithdai ar hyn mewn ysgolion i godi lefel dyheadau ac addysgu ar rôl aelodau etholedig
- Archwilio dichonoldeb profiad 'Cynghorydd am ddiwrnod' (fel profiad gwaith) a/neu rai astudiaethau achos ar rôl cynghorwyr a pha effaith gallan nhw ei chael – o bosib wedi cysylltu ag Wythnos Democratiaeth Leol

Gofyniad 3: Darparu mwy o fynediad at wybodaeth am benderfyniadau a wnaed, neu a wneir, gan y cyngor

Camau Gweithredu

- Parhau i symud tuag at ddulliau cyfranogol o ymgysylltu sy'n grymuso dinasyddion ac yn rhoi penderfyniadau yn nwylo cymunedau ac unigolion
- Adeiladu ar y defnydd o dechnoleg i estyn cwmpas gweithgarwch ymgysylltu
- Rhoi sylw dyledus i Gynllun Ymgysylltu â Dinasyddion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot yn ein holl weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu
- Rhoi sylw dyledus i Gynllun Ymgysylltu â Dinasyddion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot yn ein holl weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu.
- Datblygu ymarferiadau ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol a chynhwysol sy'n pennu disgwyliadau rhesymol ynghylch yr hyn mae modd ei newid a'r hyn nad oes modd ei newid o ganlyniad
- Adolygu a datblygu ymhellach Banel Dinasyddion Castell-nedd Port Talbot, ac ar y cyd â'r grwpiau rhanddeiliaid perthnasol, nodi trefniadau priodol i alluogi aelodau o grwpiau rhanddeiliaid sydd â nodweddion gwarchoddedig i gymryd rhan
- Rhoi gwybod i bobl sut helpodd eu hadborth i ddylanwadu ar benderfyniadau, e.e. 'Fe ddwedsoch chi... fe wnaethon ni'
- Nodi cyfleoedd i'n galluogi i estyn ymhellach i gymunedau trwy weithio mewn partneriaeth
- Pan wneir penderfyniadau pwysig, sicrhau bod gwybodaeth gadarn a dibynadwy ac adborth rhanddeiliaid yn cael eu darparu i lunwyr penderfyniadau
- Archwilio barn y cyhoedd ynghylch pa rai o gyfarfodydd y cyngor ddylai gael eu darlledu'n fyw yn eu barn nhw
- Datblygu ymhellach Gymuned o Ymarfer CnPT ar Ymwneud ac Ymgysylltu, er mwyn sicrhau dull cydlynus o ymdrin ag ymgynghori ac ymgysylltu

- Sicrhau bod swyddogion wedi'u paratoi'n ddigonol â'r sgiliau a'r offer angenrheidiol i lunio ymgynghoriadau, casglu adborth yn amserol a dehongli'r canlyniadau'n gywir
- Datblygu Pecyn Offer Ymgynghori ac Ymgysylltu i sicrhau dull corfforaethol cyson o ymdrin â'r holl weithgareddau
- Datblygu systemau a phrosesau ar gyfer coladu'r holl adborth ymgynghori ac ymgysylltu ar draws y cyngor mewn adnodd canolog, i ffurfio darlun dibynadwy, cadarn a mwy cynhwysfawr o'r hyn mae pobl yng Nghastell-nedd Port Talbot yn ei feddwl, ei eisiau a'i deimlo.
- Datblygu proses flaengynllunio/calendr ymgynghori
- Gwella'r dadansoddi, y dehongli a'r rhannu ar wybodaeth i lywio penderfyniadau, gan ddefnyddio'r dechnoleg y cytunwyd arni (h.y.Snap Software)
- Diweddarau gwybodaeth am unrhyw newidiadau perthnasol i'r ddeddfwriaeth ac archwilio enghreifftiau o arloesedd ac arfer da
- Mae Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Plant a Phobl Ifanc yn cael ei datblygu. Bydd y strategaeth yn darparu fframwaith clir ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc, ac yn cynnwys model ymgysylltu
- Sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch i bob Plentyn a Pherson Ifanc – e.e. creu argraff gyfeillgar, hawdd ei darllen etc.

Gofyniad 4: Darparu a hyrwyddo cyfleoedd i drigolion roi adborth i'r Cyngor, gan gynnwys sylwadau, cwynion a mathau eraill o sylwadau

Camau Gweithredu

- Datblygu 'Dewch i Sgwrsio' ymhellach, fel ein bod yn cael adborth parhaus gan ein trigolion, ein staff, ein busnesau a'n partneriaid ac yn cynyddu cyfranogiad yng ngwaith y cyngor
- Datblygu gwell dealltwriaeth o ddemograffeg trigolion sy'n rhoi adborth yn rheolaidd, fel bod modd canfod unrhyw fylchau yn y gynrychiolaeth
- Ystyried sut rydym ni'n datblygu'r rhain yn fecanwaith mwy ffurfiol i'r gymuned ar-lein gyfranogi mewn ymgynghoriadau ac ymgyrchoedd ymgysylltu
- Cofleidio'r defnydd o drafodaethau digidol
- Cwrdd â rhanddeiliaid wyneb yn wyneb yn eu cymunedau a'u grwpiau eu hunain er mwyn dod i'w hadnabod nhw a'r materion sy'n bwysig iddyn nhw yn well
- Adolygu a diweddarau'r Strategaeth ar gyfer Craffu ar Ymgysylltu â'r Cyhoedd, yn arbennig yng nghyswllt cyfarfodydd hybrid
- Adolygu a diweddarau Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu'r cyngor

- Rhoi dyletswydd y cyngor ar waith o dan adran 90 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i ymgynghori â phobl leol ar berfformiad
- Mae Strategaeth yn cael ei datblygu ar gyfer Cyfranogiad ac Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc. Bydd y strategaeth yn darparu fframwaith clir ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc, a bydd yn cynnwys model ymgysylltu
- Parhau i ddatblygu dulliau mwy ystyrlon ac arloesol o ymgysylltu, fel bod y trigolion yn cael cyfle i gyfranogi a bod yn rhan o gyd-gynhyrchu.
- Darparu hyfforddiant i'r staff fel eu bod yn deall beth yw cyfranogiad effeithiol. Darparu fframwaith neu fodel – e.e. Lundy a chynyddu ymwybyddiaeth o Egwyddorion Gunning.
- Datblygu fframwaith ar gyfer sut rydym ni'n monitro cyfleoedd cyfranogiad i sicrhau ansawdd a chysondeb, a mesur eu heffaith.

Gofyniad 5: Trefniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, at ddiben dyletswydd y cyngor i ddod â barn y cyhoedd at sylw pwyllgorau craffu a throsolwg

Camau Gweithredu

- Cyhoeddi Canllaw i'r Broses Ddemocrataidd a sut mae'r cyngor yn gwneud penderfyniadau
- Sicrhau bod gwybodaeth ar wefan y cyngor yn hygyrch
- Sicrhau bod blaengynllun y cyngor yn cefnogi ymgysylltiad â'r cyhoedd trwy fod yn hygyrch, yn amserol ac yn hawdd ei ddefnyddio
- Parhau i ddarlledu cyfarfodydd ar y we, fel y nodwyd o dan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a datblygu polisi ar gyfer cyfarfodydd hybrid. Sicrhau bod cyfleusterau cyfieithu ar gael, fel bod modd i gyfarfodydd y Cyngor Llawn gael eu cynnal yn ddwyieithog, a hefyd unrhyw gyfarfodydd eraill lle mae'r ddeddfwriaeth yn gwneud hynny'n ofynnol
- Darparu hyfforddiant manwl i gadeiryddion pwyllgorau craffu ar ffyrdd o wneud y gymuned yn rhan o'r broses graffu
- Hybu defnydd o graffu ar sianeli cyfryngau cymdeithasol
- Mae Strategaeth yn cael ei datblygu ar gyfer Cyfranogiad ac Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc. Bydd y strategaeth yn darparu fframwaith clir ar gyfer cyfranogiad plant a phobl ifanc, a bydd yn cynnwys model ymgysylltu

Gofyniad 6: Hybu ymwybyddiaeth cyngorwyr o fanteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â'r trigolion

Camau Gweithredu

- Sefydlu a Hyfforddiant Cynghorydd
- Hyfforddiant diogelwch ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol i gael ei gyflwyno i'r aelodau trwy Raglen Sefydlu'r Aelodau, ac adeiladu ar hynny yn ystod eu cyfnod yn y swydd
- Datblygu ein sianeli cyfryngau cymdeithasol yn blatfform i ofyn cwestiynau a rhannu barn
- Cofleidio'r defnydd o drafodaethau digidol
- Seminarau Cynghorwyr
- Bydd y Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Addysg yn cynnwys gwybodaeth a phrosesau ar gyfer ymgysylltu digidol.

10. Monitro a Gwerthuso

Byddwn ni'n monitro ein cynnydd yn barhaus yn erbyn y camau gweithredu yn y strategaeth, gan ddefnyddio'r mesurau canlynol:

Gofyniad 1: Hybu ymwybyddiaeth o'r swyddogaethau mae'r cyngor yn eu cyflawni ar gyfer trigolion lleol, busnesau ac ymwelwyr	<ul style="list-style-type: none">• Nifer y rhai a fu'n edrych ar gyfarfodydd• Data traffig y wefan• Arolygon boddhad ar wefan y Cyngor.
Gofyniad 2: Rhannu gwybodaeth am sut mae mynd ati i ddod yn aelod etholedig, neu gynghorydd, a beth sydd dan sylw yn rôl y cyngor	<ul style="list-style-type: none">• Data cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer aelodau etholedig
Gofyniad 3: Darparu mwy o fynediad at wybodaeth am benderfyniadau a wnaed, neu a wneir, gan y cyngor	<ul style="list-style-type: none">• Nifer y bobl ar y Panel Dinasyddion, a pha mor gywir y mae hyn yn cynrychioli proffil trigolion y fwrdeistref sirol o ran nodweddion gwarchoddedig• Nifer yr ymatebion fesul ymgynghoriad• Nifer y trawiadau ar y wefan 'lleisio barn'

	<ul style="list-style-type: none"> • Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (Arolwg Cenedlaethol Cymru a data lleol)
<p>Gofyniad 4: Darparu a hyrwyddo cyfleoedd i drigolion roi adborth i'r Cyngor, gan gynnwys sylwadau, cwynion a mathau eraill o sylwadau</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer y sylwadau, y ganmoliaeth a'r cwynion a dderbyniwyd • Cyfraddau cyfranogi mewn ymgynghoriadau ac arolygon • Nifer y rhai sy'n gwylio cyfarfodydd ar-lein • Monitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth ynghylch trigolion sydd wedi darparu adborth • Lefel cyfranogi ac ymgysylltu yn y broses graffu • Lefelau ymateb i ymgynghori • Nifer y rhai a fu'n gwylio cyfarfodydd, gan gynnwys yn fyw ac ar YouTube
<p>Gofyniad 5: Trefniadau a wnaed, neu sydd i'w gwneud, at ddiben dyletswydd y cyngor i ddod â barn y cyhoedd at sylw pwyllgorau craffu a throsolwg</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cofnodion nifer y cyhoedd a fu'n mynychu pwyllgorau craffu • Cofnodion aelodau'r cyhoedd a wahoddwyd i fod yn bresennol a chyflwyno sylwadau i bwyllgorau craffu • Y nifer a gafodd fynediad at bapurau craffu a recordiadau ar-lein
<p>Gofyniad 6: Hybu ymwybyddiaeth cynghorwyr o fanteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â'r trigolion</p>	<ul style="list-style-type: none"> • canran sy'n cwblhau cwblhau modiwlau hyfforddi • canran presenoldeb yn Seminarau'r Aelodau

Bydd cynnydd yn erbyn y strategaeth yn cael ei adrodd trwy ein Hadroddiad Hunanasesu Blynyddol.

Bydd y strategaeth hon yn cael ei hadolygu ac yn destun ymgynghori ffurfiol yn dilyn etholiadau arferol llywodraeth leol 2027, ond mae'r ddogfen hon yn un fyw, a bydd yn cael ei hadolygu gan gynghorwyr a swyddogion yn rheolaidd er mwyn canfod sut gall y cyngor wella'i rhaglen gyfranogi ymhellach.